## Beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)?

Cyrff rhanbarthol yw CBCau sydd wedi cael eu sefydlu yng Nghymru i wella ffyniant economaidd drwy'r holl ardaloedd y maent yn eu cwmpasu er budd preswylwyr a busnesau. Yma yn Ne-orllewin Cymru, mae ein CBC (CBCDOC) yn cwmpasu Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. O ran rhai swyddogaethau cynllunio datblygu, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn aelodau.

Mae CBCDOC yn gweithio i sicrhau cydweddiad rhanbarthol mewn nifer o sectorau allweddol i wneud yn fawr o gryfderau a chyfleoedd sy'n gyffredin iddynt. Bydd hyn yn helpu i greu rhagor o swyddi yn Ne-orllewin Cymru wrth helpu'r rhanbarth ymhellach drwy dorri ei ôl troed carbon a denu mwy o fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae CBCDOC, a sefydlwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, yn cynnwys Arweinwyr Cynghorau Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ogystal ag uwch-gynrychiolwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro. Fe cyflwynwyd CBCDOC trwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae'n un o bedwar corff o'r fath yng Nghymru.

## Beth rydym am ei gyflawni?

Mae CBCDOC yn bwriadu cyflawni'i weledigaeth ar gyfer 'De-orllewin Cymru 2035'.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth cryf sydd eisoes ar waith i wneud cynnydd mewn meysydd allweddol gan gynnwys:

- Datblygu'r cynllunio strategol rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth ymhellach;
- Cyflwyno dyheadau rhanbarthol ar gyfer datblygiad ynni ac economaidd, a
- Paratoadau ar gyfer cynllun datblygu strategol cyntaf erioed y rhanbarth.

Mae tri amcan lles wedi'u sefydlu i arwain gwaith cychwynnol CBCDOC, er y caiff y rhain eu hadolygu wrth i'w waith aeddfedu i sicrhau eu bod yn barhaol addas i'r diben.

## Beth yw'r Cynllun Corfforaethol?

Mae'r Cynllun yn cynnwys gweledigaeth 2035, tri amcan lles, a'r sectorau y mae'r CBCDOC yn canolbwyntio arnynt. Bydd y Cynllun yn arwain gwaith y CBCDOC ac yn galluogi i gynnydd gael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd. Rhwng Ionawr 26 2023 a Mawrth 8 2023 fe wnaeth y CBCDOC ymgynghori ar y Cynllun Corfforaethol mewn ffurf drafft. Ar 30 Mawrth 2023, edrychodd Aelodau'r CBCDOC ar y sylwadau a daeth i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyn cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol yn ei ffurf derfynol.

## Paham y dylai'r Cynllun Corfforaethol bod o ddiddordeb?

Mae gennym ni i gyd ddiddordeb cyffredin mewn gwneud ein rhanbarth yn fwy mentrus, uchelgeisiol a chynaliadwy. Mae gwireddu'r nodau hyn yn bwysig i bobl nawr, wrth helpu hefyd i adael etifeddiaeth tymor hir cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Ble gallaf weld y Cynllun Corfforaethol?

Gallwch weld y Cynllun yma.